



FFRAMWAITH CYMWYSEDDAU IAITH CYMRAEG AR GYFER ATHRAWON PORTFFOLIO 2019-20

Enw: Bethan Hannah Phillips

Rhif Myfyriwr PCYDDS: 1902994

Rhif Cyfeirnod Athro (CGA): 2177715

FFRAMWAITH CYMHWYSEDD IAITH CYMRAEG AR GYFER ATHRAWON:
PORTFFOLIO 2019-20

Cynnwys

Pecyn Fideo 2019-20	2
Cynlluniau Gwers	3
Adnoddau	5
Tasgau/Asesiadau Ffurfiannol	6
Cywiro Gwaith	6
Adnoddau Ychwanegol	6
Adfyfyriad	7

Dolen gyffredinol i'r ffolderi Fframwaith:

<https://1drv.ms/u/s!Ak55O-aeueSio0gLvoBROW5Q7prF?e=Rd8zSu>

*(Daw'r ddolen i ben ar **11/05/22**)*

NODYN (11/05/20): Daw bob dolen i ben ar FAI 11EG, 2022. Os oes angen mynediad i'r ffeiliau tystiolaeth ar ôl y dyddiad yma, e-bostiwch bhphillips7497-wlframework@outlook.com am ddolen/ddolenni fynediad newydd. Diolch.

Pecyn Fideo 2019-20

Dolen: <https://1drv.ms/u/s!Ak55O-aeueSio1q8TFalHyhkTUh8?e=OM4qZF>

Cynnwys y ffolder:

- Cynllun gwers gydag adran adfyfrio
 - Cyflwyniad PowerPoint ar fwlian
-

Cynlluniau Gwers

Dolen: <https://1drv.ms/u/s!Ak55O-aeueSio1mOFA2xzB2n70gm?e=qHZuG6>

Adran A: Gwersi ag Addysgwyd yn 2019-20

GCA1: Rhedeg yr Arddodiad (CA2: Tasg Ffocws, Tachwedd 2019)

Yn ystod PAP1, cefais y ffrainc o addysgu llythrennedd Cymraeg pur fel tasg ffocws o fewn wers fy mentor dosbarth. Ar gyfer y wers yma, gofynnodd fy mentor dosbarth i mi gynllunio gwers fer ar redeg yr arddodiad 'gan' ar gyfer nifer bach o ddisgyblion a oedd yn cael hi'n anodd gwneud hyn yn eu gwaith ysgrifenedig. Yn ffodus, ffocws un o fy ngwersi Gloywi Iaith yn y brifysgol oedd 'yr arddodiad' a sut i'w rhedeg yn dibynnu ar y rhagenw. Teimlaf roedd gen i'r wybodaeth briodol er mwyn addysgu'r wers fer yma'n effeithiol a llwyddodd yr holl ddisgyblion yma i redeg yr arddodiad yn eu hymarferion.

CGA2: Cymryd nodiadau'n effeithiol (CA2: Tachwedd 2019)

(Gweler 'Adfyfyriad')

CGA3: 'Dwyn i gof' (Ysgrifennu am ymweliad) (Cyfnod Sylfaen: Ionawr 2020)

Nod y wers yma oedd ysgrifennu darn byr yn seiliedig ar ymweliad gan un o 'arwyr' yr ardal leol. Yn y wers, defnyddiodd y disgyblion mat geirfa er mwyn ddechrau eu brawddegau, a chyd-gynllunio ni ambell frawddeg er mwyn hwyluso'r dysgu i ambell grŵp o ddisgyblion.

Adran B: Gwersi wedi'i gynllunio ar gyfer 2019-20

CGB1: Delweddu (Disgrifio cymeriadau) (ar gyfer Mawrth 2020)

Ar gyfer y wers yma, roedd disgwyl y byddwn yn arwain gwers yn seiliedig ar ysgrifennu portreadau cymeriadau, neu "delweddu" cymeriadau. Byddai'r wers

**FFRAMWAITH CYMHWYSEDD IAITH CYMRAEG AR GYFER ATHRAWON:
PORTFFOLIO 2019-20**

hon wedi canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ysgrifennu'r disgyblion yn benodol wrth iddynt ehangu eu geirfa a defnyddio amryw o frawddegau ac ansoddeiriau i greu delweddau unigol a phersonol.

CGB2: Gramadeg (Atebion Ie/Na) (ar gyfer Mawrth 2020)

Gan ddefnyddio'r hyn a ddysgais o fewn sesiynau 'Gloywi Iaith' y brifysgol, cynlluniais wers gramadeg i ddisgyblion Blwyddyn 3/4 yn seiliedig ar fireinio eu sgiliau ateb cwestiynau 'ie/na'. Yn ystod fy wythnos arsylwi yn fy ysgol PAP2, sylweddolais roedd y disgyblion yn ateb cwestiynau 'ie/na' yn anghywir ac roedd yna bwyslais gan eu hathrawes i hunan-wirio eu camgymeriadau. O ganlyniad, penderfynais baratoi gwers gramadeg byr er mwyn adnewyddu ac atgyfnerthu'r hyn yr oeddynt yn gwybod, ac ymarfer y ffurfiau gwahanol o ateb y mathau yma o gwestiynu.

Adran C: Gwersi damcaniaethol ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd Cymraeg y disgyblion

CGC1: Ysgrifennu sgript (Dyddiad i Gadarnhau)

Byddai'r wers hon wedi dilyn sesiwn ddeall lle byddwn wedi cyflwyno stori Breuddwydion Cynfrodorol i'r myfyrwyr a'i chymharu ag un o straeon y Mabinogi. Yn y wers hon, byddai'r myfyrwyr wedi ailddarllen y stori Gynfrodorol ac wedi dysgu am droi stori yn sgript trwy archwilio sgript fer ac amlygu ei nodweddion. Byddai'r myfyrwyr wedyn wedi drafftio eu sgriptiau erbyn diwedd y wers.

CGC2: Gramadeg (Mireinio 'sawl/faint...') (Dyddiad i Gadarnhau)

Byddai'r wers hon wedi adnewyddu ac atgyfnerthu gwybodaeth y disgyblion am ateb cwestiynau yng nghyfrwng y Gymraeg. Roeddwn yn gobeithio cyflwyno'r gwahanol fformatau yn ystod y wers ac annog y disgyblion i gydweithio er mwyn

**FFRAMWAITH CYMHWYSEDD IAITH CYMRAEG AR GYFER ATHRAWON:
PORTFFOLIO 2019-20**

dysgu o'i gilydd. Byddai'r wers hon wedi canolbwyntio ar sgiliau llafar a darllen yn benodol wrth i'r disgyblion ymarfer eu cwestiynu ac adnabod y patrymau iaith gywir ar eu cyfer.

Adnoddau

Dolen: <https://1drv.ms/u/s!Ak55O-aeueSio1j6i3EutLfT9Pof?e=AtWKGT>

Adran A: Adnoddau ar gyfer y gwersi ag Addysgwyd yn 2019-20

Adran B: Adnoddau ar gyfer y gwersi wedi'i gynllunio ar gyfer 2020

Adran C: Adnoddau ar gyfer y gwersi damcaniaethol ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd Cymraeg y disgyblion

Tasgau/Asesiadau Ffurfiannol

Dolen: https://1drv.ms/u/s!Ak55O-aeueSio09Bkjb_Qij5_ZDT?e=RTJcqp

Ysgol

Nid oedd modd casglu tystiolaeth o asesiadau a thasgau ffurfiannol yn ystod PAP oherwydd diffyg cyfleoedd yn ystod y profiad i ddarparu a chreu'r rhain. Roedd yna bwyslais ar gyflawni tasg ysgrifenedig Saesneg ar draws yr adran ym Mloc 1, ac ym Mloc 2 (yn y Cyfnod Sylfaen), nid oedd yna dasgau nac asesiadau ffurfiannol yn addas.

Prifysgol

Tasg ffurfiannol gychwynnol

Ar ddechrau'r cwrs, roedd rhaid i mi gwblhau awdit i asesu fy sgiliau iaith Cymraeg ar ddechrau'r cwrs. Gwelais o'm ganlyniadau yr oedd rhaid i mi fireinio fy ngwybodaeth o dreigladau yn benodol. Ni siaradais y Gymraeg yn gyson am sawl mlynedd cyn i mi ddechrau'r cwrs ac roeddwn yn awyddus i adnewyddu ac atgyfnerthu fy sgiliau yn yr ysgol.

Gweithgareddau sesiynau 'Gloywi Iaith'

- | | |
|---|------------------------------------|
| a. Gweithgaredd 'Rhedeg yr Arddodiaid' | d. Gweithgaredd 'Enwau' |
| b. Gweithgaredd 'Arddodiaid ar ôl Berfau' | e. Gweithgaredd 'Rhannau Ymadrodd' |
| c. Gweithgaredd 'Cenedl Enwau' | f. Gweithgaredd 'Treigladau' |

Y Coleg Cymraeg: Tystysgrif Sgiliau Iaith

Rhannir y ffeil yma'n ddwy adran:

- A. Cyflwyniad Llafar: 'Arfer Adferol ac Addysg' (gyda chardiau nodiadau)
- B. Tasgau Cywiro (Ymarferion ar gyfer y prawf)
 - a. Papur enghreifftiol 1
 - b. Papur enghreifftiol 2
 - c. Papur enghreifftiol 3
 - d. Papur enghreifftiol 4

Trwy gydol y flwyddyn, cwblheais ychydig o dasgau a fyddai wedi cyfrannu tuag at y Dystysgrif Sgiliau Iaith ar gyfer athrawon fel y cynigir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. O ganlyniad i amgylchiadau esgusodol, nid oedd yn bosib cyflawni'r Dystysgrif y flwyddyn yma, ond gobeithiaf ei gyflawni yn y dyfodol agos.

Cywiro Gwaith

Oherwydd diffyg y gwersi ar gyfer mireinio sgiliau llythrennedd Cymraeg y disgyblion yn ystod PAP, nid oedd modd casglu tystiolaeth ar gyfer yr adran yma. Serch hynny, teimlaf fod y gweithgareddau cywiro gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi dechrau codi fy hyder ynglŷn â chywiro gwaith fy nisgyblion yn y dyfodol. Dymunaf barhau gydag ymarferion mor aml â phosib er mwyn atgyfnerthu fy sgiliau ymhellach.

Adnoddau Ychwanegol

Dolen: https://1drv.ms/u/s!Ak55O-aeueSio2wSwLM_WoEzuJ8k?e=6zKbbx

Cynnwys:

- Bwydlen gwaith cartref 'Awstralia' PAP2
- Dogfen 'Arbrawf Gwyddonol'

Ar gyfer y thema newydd yn PAP2, cyd-gynlluniais fwydlen gwaith cartref yn seiliedig ar 'Awstralia'. Mae gan y fwydlen gweithgaredd llythrennedd Cymraeg, a hefyd prosiect Gwyddoniaeth a Thechnoleg lle disgwylir y disgyblion i gynnal arbrawf gwyddonol, gan nodi eu canlyniadau a gwerthuso eu harfer yn ystod yr arbrawf.

- Adnodd 'Geiriau Aml-Ddefnydd'

Yn ystod fy mlwyddyn gwirfoddoli o fewn ysgol gynradd, roedd gen i'r ffrainc o baratoi rhestr o eirfa aml ddefnydd ar gyfer y disgyblion ymyrraeth. Roedd y rhestr yma'n hanfodol i'n sesiynau llythrennedd Cymraeg trwy gydol y misoedd.

Adfyfyriad

Adfyfyriad ar un wers: Gwers 'cymryd nodiadau' ym Mloc 1 (Bl. 5/6) (Gweler GCA2)

Ar gyfer y wers yma, cynlluniais weithgaredd lle'r oedd rhaid i'r disgyblion darllen darn o wybodaeth ac echdynnu'r wybodaeth bwysig er mwyn creu nodiadau bras ar gyfer ysgrifennu darn o waith estynedig. Bwriad y wers yma oedd adeiladu tuag at ddarn o waith ag aseswyd gan y mentor athrawes ar ôl PAP1 ac roedd angen gosod sylfaen y sgil yn gynnar er mwyn atgyfnerthu'r ddealltwriaeth yma. Mae cymryd nodiadau effeithiol yn agwedd pwysig o ddatblygu sgiliau darllen disgyblion, a datgelwyd nifer o astudiaethau (Faber et al., 2000; Boyle & Weishaar, 2001; Boyle, 2010) yr effaith positif o addysgu sgiliau cymryd nodiadau i ddisgyblion o allu canolig i isel, fel yr oedd (ar gyfartaledd) o fewn fy nosbarth ym Mloc 1. Yn ystod y wers, cyflwynais strategaeth benodol ag galwais y strategaeth DUCA (Darllen dwywaith, Uwchleuo, Crynhoi, ac Aralleirio) neu DUCCA (... Crynhoi, Cyfieithu,...), yn dibynnu ar iaith y testun. Gan ddefnyddio'r strategaeth yma, aeth y disgyblion ati i echdynnu'r wybodaeth.

Ar ôl ystyried y wers yn gyflawn, teimlaf yr oedd yn wers effeithiol iawn. Ymatebodd y disgyblion yn dda iawn dros y ddau ddiwrnod ac roedd y strategaethau a ddefnyddiais yn effeithiol ar gyfer y grwpiau gallu gwahanol. Gyda'r grwpiau o alluoedd uwch-ganolig ac uwch, roedd y delweddau a'r gweithgareddau byr ar y cyflwyniad PowerPoint yn effeithiol iawn er mwyn cychwyn eu dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r wers ac o'r strategaeth a chyflwynais. Gyda'r ail grŵp a oedd o allu is-ganolig ac is, y strategaeth fwyaf effeithiol er mwyn cadarnhau'r ddealltwriaeth yma oedd gweithgaredd darllen ar y cyd lle darllenon ni paragraff syml gyda'n gilydd er mwyn dangos sut i edrych am y wybodaeth bwysig. Yn debyg i'r ddau grŵp, defnyddiais symudiadau er mwyn cyflwyno'r acronym, a chredaf yn gryf wnaeth hyn atgyfnerthu'r dechneg i'r disgyblion yn hirdymor.

Ar ôl y wers, poenais na fyddai'r wers yn aros gyda'r disgyblion; ond, ar ôl ymweld â'r dosbarth ar ddiwedd y cyfnod PAP, gwelais effaith parhaol y wers o fewn eu gwaith. Datgelwyd trafodaethau gyda nifer o'r disgyblion fod y technegau a ddysgwyd yn ystod y wers wedi atseinio gyda nhw ac roeddwn yn ffodus o'u clywed yn egluro'r camau, a'u defnyddio wrth ymchwilio o fewn thema arall misoedd ar ôl y

FFRAMWAITH CYMHWYSEDD IAITH CYMRAEG AR GYFER ATHRAWON: PORTFFOLIO 2019-20

wers gychwynnol. Mae'n debyg, felly, roedd y technegau yn addas ac yn gofiadwy, ac o ganlyniad gwellhaodd eu sgiliau darllen a deall, ac ysgrifennu. Yn ystod y flwyddyn ANG ac yn y dyfodol, dymunaf blethu'r sgiliau yma o'r cychwyn er mwyn i fy nisgyblion elwa o a datblygu'r sgiliau yma.

Pe bawn i'n ail-ddysgu'r wers, baswn i'n gwario mwy o amser yn modelu'r gwaith i bob disgybl ar y cyd yn hytrach na'r grwpiau gallu isel neu sydd ag anghenion. Credaf byddai'r disgyblion yn y grwpiau gallu uchel ac uwch-ganolig wedi elwa o fwy o esiamplau ar y cyd yn ychwanegol i'r esiamplau ar y PowerPoint. Pe bawn i wedi cynnwys y myfyrwyr yn fwy yn y broses ragarweiniol, credaf y byddai'r myfyrwyr wedi cynhyrchu gwaith o ansawdd gwell a byddai'r pedwar / pum cam a gyflwynwyd wedi atseinio gyda mwy, os nad pob myfyriwr. Gallai ymchwil bellach i fodelau addysgu amgen, megis addysgu/dysgu cilyddol (Snow, Burns, & Griffen, 1998), fod o fudd i ddatblygiad myfyrwyr o dri llinyn y fframwaith llythrennedd cenedlaethol gan y gallai myfyrwyr arddangos y technegau dan gyfarwyddyd i gynulleidfa, a fyddai yn ei dro yn helpu i storio'r wybodaeth yn eu hatgofion tymor hir ac o fudd i'w hastudiaethau yn y dyfodol.

Adfyfyriad cyffredinol

Pwysleisia canfyddiadau Donaldson (2015) a'r Cwricwlwm i Gymru 2022 dilynol yr angen i ddatblygu a mireinio sgiliau llythrennedd y disgyblion, am welwyd y galw am genhedlaeth sydd â hyfedredd o ran eu sgiliau llythrennedd (Donaldson, 2015), a nodu Wilson (2016) y pwysigrwydd o lythrennedd o fewn ein cymdeithas ddatblygedig. O ran fy mhrofiad cychwynnol, taith anodd a diddorol oedd datblygu llythrennedd fy myfyrwyr. Ar ddechrau'r cwrs, roeddwn i'n allan o'r arfer o siarad yr iaith yn gyson ac felly roeddwn i'n hunanymwybodol o'm sgiliau a gallu i addysgu yng nghyfrwng y Gymraeg. Er wirfoddolais yn fy nghyn ysgol gynradd cyn dilyn gyrfa mewn addysg, cefais anhawster i gyfathrebu â'r myfyrwyr a'r staff, yn aml yn baglu wrth siarad. Darperais fwyafrif o'm gymorth i wella sgiliau mathemateg a llythrennedd Saesneg y myfyrwyr na'r Gymraeg o ganlyniad i'm harbenigaeth mewn Llenyddiaeth Saesneg. Serch hynny, teimlais yn fwy hyderus erbyn diwedd fy mlwyddyn yna a theimlais yn barod i addysgu yng nghyfrwng y Gymraeg. Ond, yn anffodus, cafodd fy mhrofiad

**FFRAMWAITH CYMHWYSEDD IAITH CYMRAEG AR GYFER ATHRAWON:
PORTFFOLIO 2019-20**

addysgu llythrennedd Cymraeg i fy nisgyblion ei effeithio gan sawl amgylchiad esgusodol yn ystod PAP1, megis amserlen yr uned ac amgylchiadau personol. Serch fy niffyg profiad, edrychaf ar yr hyn yr wyf wedi profi, a'r hyn yr oeddwn am eu profi mewn modd positif.

Fel gwelwch o'm dystiolaeth, mae gen i ystod gul o brofiadau ynglŷn ag addysgu a mireinio llythrennedd iaith Cymraeg yn bur neu o safon ragorol. O ganlyniad i'm bryderon am fy sgiliau iaith bersonol, cefais hi'n anodd cynllunio'r gwersi yma dros y ddau floc. Yn ystod Bloc 1, cefais y fraint o arwain ambell sesiwn sgiliau boreol lle freiniodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 eu sgiliau llythrennedd, megis llawysgrifen, cystrawennau iaith, mynegi barn, a darllen dan arweiniad. Yn ychwanegol, arweiniais y 'cwestiwn boreol' lle'r oedd rhaid iddynt fynegi eu barn gan ddefnyddio'r ffurfiau iaith gywir, e.e. 'Pe fasech...?' a'r ateb 'Baswn i'n...'. Ar y cyfan, teimlaf roedd y gwersi yma'n llwyddiannus er mwyn targedu problemau llafaredd y disgyblion; roedd y mwyafrif o ddisgyblion yn cael hi'n anodd mynegi eu barn ar lafar ac yn eu gwaith, felly roedd y sesiynau yma'n ddefnyddiol iawn er mwyn ehangu eu geirfa a sgiliau llythrennedd ymhellach. Roedd y disgyblion yn gyson yn eu hymarferion a dangoson nhw gynnydd yn eu sgiliau a hyder wrth i'r wythnosau symud ymlaen. Serch hynny, cefais hi'n anodd yn ystod y sesiynau darllen dan arweiniad am nad oeddwn i'n ddigon gwybodus o ran disgwyliadau'r sesiynau. Mae astudiaeth Americanaidd gan Hardie (2013) yn cadarnhau'r pwysigrwydd o ddefnyddio sesiynau darllen dan arweiniad er mwyn cyfoethogi sgiliau llythrennedd disgyblion yn yr ysgol gynradd. Er bod ei ymchwil yn seiliedig ar ddisgyblion yn gyfartal i'n Cyfnod Sylfaen, mae neges eu hastudiaeth yn bwysig i ymarfer trwy gydol yr ysgol gynradd.

Wrth i fy amser yn PAP1 cynyddu, cefais brofiadau tebyg a wahanol wrth addysgu llythrennedd cynnar i ddosbarth cymysg o Flwyddyn 1 a 2. Yn y dosbarth yma, arweiniais ambell sesiwn iaith foreol lle gweithiais yn benodol gyda'r grwpiau darllen dan arweiniad. Yn dilyn ar fy mhrofiadau ym Bloc 1, fe wnes i baratoi'n fwy trylwyr ar gyfer darllen gyda'r disgyblion ifancach, gan sicrhau yr oeddwn yn gofyn cwestiynau addas i'w hoedrannau. Roedd fy mhrofiadau yn y bloc yma yn ddiddorol a chredaf yn gryf yr oeddent yn ddylanwad positif ar fy sgiliau iaith bersonol. Gan mai unig iaith y Cyfnod Sylfaen yn fy ysgol PAP1 oedd Cymraeg, roedd yn ddigon o gyfle

**FFRAMWAITH CYMHWYSEDD IAITH CYMRAEG AR GYFER ATHRAWON:
PORTFFOLIO 2019-20**

i mi fireinio fy sgiliau iaith bersonol wrth drochi fy hunan o fewn diwylliant y dosbarth a'r adran.

Hefyd, fe wnes i baratoi tasgau ffocws iaith a llythrennedd o fewn fy nghynlluniau gwers thema a ddarllenais straeon ar ddiwedd y dydd gyda'r disgyblion. Teimlais yn eithaf hyderus wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd y disgyblion yn ystod y gwersi yma, ond hefyd credaf yr oedd yn anodd ar adegau oherwydd fy niffyg gwybodaeth am sawl agwedd o fewn datblygiad llythrennedd, megis rhannau ymadrodd a ffoneg. Pwysleisia ymchwilwyr fel Wray et al.(2002) a Kaya (2014) y pwysigrwydd o ddatblygu gwybodaeth bynciol gryf wrth ddod yn athro, ac mae'r datblygiad yma'n agwedd o arfer da o fewn addysg. Er roedd gweithgareddau Gloywi iaith yn ddefnyddiol er mwyn adnewyddu ac atgyfnerthu fy ngwybodaeth flaenorol, ond teimlaf fod yna llefydd i wella. Mae angen i mi gynnal mwy o waith ymchwil i'r broses o ddysgu llythrennedd cynnar a ChA2 er mwyn sicrhau bod gen i'r wybodaeth briodol er mwyn addysgu a mireinio sgiliau llythrennedd fy nisgyblion yn llwyddiannus. Yn barod, rwyf wedi dechrau lawr lwytho a chraffu adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar sawl agwedd o'r iaith Gymraeg, megis y treigladau a rhannau ymadrodd, a dymunaf ehangu fy ngwybodaeth ar ddysgu ffoneg trwy drafodaethau proffesiynol gydag athrawon profiadol, gyda'r gobaith o gasglu technegau a syniadau newydd i wella fy arfer.

Ar ôl fy adolygiad diwedd lleoliad, cefais darged iaith treigladau. Ffocws y targed yma yw gwella fy nefnydd o dreigladau, yn enwedig treigladau ar ôl 'eu', ar lafar a gwella fy ngallu i gywiro iaith y disgyblion ar y cyd er mwyn storio'r wybodaeth yn eu cof yn hirdymor. Er bod hyn yn eithaf anodd gyda phlant mor ifanc, mae'n darged traws adrannol a fydd o werth i mi fireinio erbyn y flwyddyn Athro Newydd Gymhwyso. Dymunaf edrych am fwy o adnoddau, megis llyfrau ac adnoddau dysgu o ffynonellau eraill, er mwyn gwella fy ngwybodaeth o'r treigladau, a hefyd dymunaf ymarfer fy sgiliau llafar yn fwy aml er mwyn gwella fy rhuglder a pharatoi ar gyfer y flwyddyn ANG.

Ar y cyfan, serch yr anawsterau wynebais yn ystod fy mhrofiad y flwyddyn yma, edrychaf ymlaen at fy mhotensial i ddatblygu, atgyfnerthu a mireinio sgiliau llythrennedd Cymraeg fy nisgyblion o fewn fy ngyrfa. Teimlaf fod fy mhrofiadau o'r flwyddyn TAR wedi cychwyn fy nhaith mewn modd eithaf llwyddiannus ac edrychaf

ymlaen at ddatblygu ystod o strategaethau effeithiol er mwyn gwella fy sgiliau Cymraeg personol a sgiliau llythrennedd fy nisgyblion.

Cyfeiriadau

Boyle, J. R. (2010). 'Strategic note-taking for middle-school students with learning disabilities in science classes', *Learning Disability Quarterly*, 33(2), tud. 93-109. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/260471492_Strategic_Note-Taking_for_Middle-School_Students_with_Learning_Disabilities_in_Science_Classes (Darllenwyd: 3 Mai 2020).

Boyle, J. R., & Weishaar, M. (2001). 'The effects of strategic notetaking on the recall and comprehension of lecture information for high school students with learning disabilities', *Learning Disabilities Research & Practice*, 16(3), tud. 133–141. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/227659621_The_Effects_of_Strategic_Notetaking_on_the_Recall_and_Comprehension_of_Lecture_Information_for_High_School_Students_with_Learning_Disabilities (Darllenwyd: 3 Mai 2020).

Chang, W-C., & Ku, Y-M. (2014) 'The Effects of Note-Taking Skills Instruction on Elementary Students' Reading', *The Journal of Educational Research*, 108, tud. 278–291. DOI: 10.1080/00220671.2014.886175

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cenedlaethol Cymru.

Faber, J. E., Morris, J. D., & Lieberman, M. G. (2000). 'The effect of note taking on ninth grade students' comprehension', *Reading Psychology*, 21 (3), 257–270. <https://doi.org/10.1080/02702710050144377>

Hardie, E.M. (2013) *The Role of Guided Reading on the Literacy Development of Young Children*. Traethawd ymchwil MS Addysg. SUNY College at Brockport. Ar gael yn: https://digitalcommons.brockport.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1198&context=ehd_theses (Darllenwyd: 3 Mai 2020).

Kaya, M. (2014) 'The Qualities of Effective Literacy Teachers: The Dynamics of Effective Teachers' Beliefs, Their Practices and Students' Responses', *Journal of Education and Human Development*, 3(3), tud.41-57. DOI: 10.15640/jehd.v3n3a4

Snow, C. E., Burns, M. S., & Griffin, P. (Eds). (1998). Preventing reading difficulties in young children. Washington, DC: National Academy Press.

Wilson, R.T. (2016) 'Literacy and Its Significance in Modern Life', *Colleagues*, 13(1), tud. 9-16. Ar gael yn: <https://scholarworks.gvsu.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1250&context=colleagues> (Darllenwyd: 3 Mai 2020).

Wray, D., Medwell, J., Poulson, L., & Fox, R. (2002). *Teaching literacy effectively in the primary school*. London: Routledge Falmer.